

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ysgolion

Tachwedd 2022



# 1. Cefndir

## Bil Ysgolion Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Ysgolion<sup>1</sup> ("y Bil") i Dŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben:

*"make provision for the regulation of Academies; about school and local education funding; about the attendance of children at school; about the regulation of independent educational institutions; about teacher misconduct; and for connected purposes."*

3. Cwblhaodd y Bil y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Gorffennaf 2022. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y dyddiad ar gyfer y trydydd ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi'i gadarnhau eto.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

5. Ar 7 Gorffennaf 2022, gosododd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ("y Gweinidog"), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol <sup>2</sup> ("y Memorandwm") gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 17 Tachwedd 2022.<sup>3</sup> Estynnwyd y terfyn amser adrodd hwn yn ddiweddarach i 1 Rhagfyr 2022.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> [Y Bil Ysgolion, fel y'i cyflwynwyd](#) (Bil Tŷ'r Arglwyddi 1)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Ysgolion](#), Gorffennaf 2022

<sup>3</sup> Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion](#), Gorffennaf 2022

<sup>4</sup> Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion](#), Medi 2022

---

## Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

---

**7.** Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi bod gwelliant i'r Bil sy'n gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gwelliant 96,<sup>5</sup> wedi'i gytuno yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.<sup>6</sup>

**8.** Mae'r Gweinidog yn rhoi manylion am effaith y diwygiad i baragraff 1 o Atodlen 2<sup>7</sup> i'r Bil (diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2). Mae paragraff 1 o Atodlen 2, fel y'i diwygiwyd, yn mewnosod diwygiadau i adran 494 o *Ddeddf Addysg 1996* ("Deddf 1996"), sy'n gymwys (fel y bydd y diwygiadau) yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Memorandwm yn nodi bod adran 494 o Ddeddf 1996:

*"... yn darparu ar gyfer galluogi awdurdodau lleol i gael eu digolledu am symiau ariannol mewn achosion lle mae disgybl wedi'i wahardd o ysgol mewn un ardal awdurdod lleol, ac wedyn yn cael addysg mewn ardal awdurdod lleol arall (gan gynnwys pan fydd y disgybl yn croesi'r ffin rhwng awdurdodau lleol Cymru a Lloegr)."*<sup>8</sup>

**9.** Mae'r Gweinidog yn nodi y bydd gwelliant arfaethedig y Bil i adran 494 o Ddeddf 1996 yn ehangu ei chwmpas i gynnwys academiâu.<sup>9</sup>

**10.** Mae'r Gweinidog yn cadarnhau barn Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn y gwelliant, gan fod iddi ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (sef ariannu ysgolion Cymru).<sup>10</sup>

**11.** Mae'r Gweinidog yn nodi bod Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen caniatâd y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon.<sup>11</sup>

**12.** Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi bod y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnig diwygiadau canlyniadol yn y Bil i Ddeddf Addysg 1996 sy'n ailddatgan y gyfraith fel y mae'n gymwys yng

---

<sup>5</sup> Senedd y DU, Bil Ysgolion [Tŷ'r Arglwyddi], [Gwelliant 96 Cyfnod Pwyllgor](#).

<sup>6</sup> Memorandwm, paragraff 3

<sup>7</sup> Yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, gwnaeth y gwelliant newidiadau i Atodlen 3 i'r Bil, fel y mae'r Memorandwm yn nodi. Fodd bynnag, mae effeithiau gwelliannau yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi yn golygu mai Atodlen 2 yw Atodlen 3 bellach. Er eglurder, bydd yr adroddiad hwn felly yn cyfeirio at Atodlen 2.

<sup>8</sup> Memorandwm, paragraff 9

<sup>9</sup> Ibid.

<sup>10</sup> Memorandwm, paragraff 10

<sup>11</sup> Memorandwm, paragraff 11

Nghymru. Gan nad yw'r darpariaethau hynny yn gwneud unrhyw newidiadau i gyfraith Cymru felly, mae'r Gweinidog yn nodi nad oes angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.<sup>12</sup>

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru**

---

**13.** Mae'r Gweinidog o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig am y rhesymau a ganlyn:

*"Mae gwelliant 96 ... yn welliant canlyniadol i gymal 42 (yn Rhan 2) y Bil. Mae cymal 42 (cymal 41 yn y Bil a gyflwynwyd) yn ymdrin ag addasiadau i'r gyllideb ar gyfer disgyblion a gaiff eu gwahardd, a'r bwriad yw sicrhau sail statudol gyson ar draws y sector yn Lloegr (ar gyfer ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac academiâu). Mae'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer didynnu cyllideb mewn perthynas â disgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol o academi neu ysgol a gynhelir, ac mae'n disodli'r pŵer yn adran 47(2)(c) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn Lloegr.*

*Bydd y gwelliant yn ymestyn y trefniadau yn adran 494 o Ddeddf Addysg 1996 i gwmpasu academiâu, sydd ond yn bodoli yn Lloegr. Dim ond i ddiogolledu yn sgil gwahardd disgyblion sy'n croesi'r ffin y bydd y gwelliant yn berthnasol i Gymru, pan fydd disgybl yn symud o academi yn Lloegr i ysgol a gynhelir yng Nghymru, neu fel arall, a bydd yn golygu bod y cyllid yn dilyn y disgybl. Mae hyn yn adlewyrchu'r arferion trawsffiniol presennol mewn perthynas ag academiâu, ac felly ffurfioli trefniadau o'r fath yn unig y mae'r gwelliant hwn.*

*Pe bai Senedd Cymru yn bwriadu mynd ati i ddeddfu ar y darpariaethau hyn ei hun, byddai'n cael ei chyfyngu rhag gwneud y diwygiadau heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan baragraff 8 o Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ar y sail eu bod yn gosod swyddogaeth ar awdurdod cyhoeddus yn Lloegr – i'r graddau y byddent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod leol yn Lloegr dalu arian i awdurdod lleol yng Nghymru pan fo disgybl wedi'i wahardd yn barhaol o ysgol academi ac wedyn yn cael addysg mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru.*

*Ar y sail hon, ac o ystyried natur ganlyniadol y diwygiadau, hyd a lled yr effaith yng Nghymru, a natur gydgysylltiedig y systemau gweinyddol*

---

<sup>12</sup> Memorandwm, paragraff 2

*perthnasol yng Nghymru a Lloegr, ystyrir ei bod yn briodol ac yn gymesur gwneud y ddarpariaeth o fewn un o Filiau'r DU. Bydd y dull gweithredu yn hyrwyddo sicrwydd a dilyniant mewn perthynas â'r rhwymedigaethau ariannu trawsffiniol rhwng y naill wlad a'r llall.*"<sup>13</sup>

**14.** Mae'r Gweinidog yn argymhell felly bod y Senedd yn rhoi cydsyniad mewn perthynas â'r ddarpariaeth.<sup>14</sup>

---

<sup>13</sup> Memorandwm, paragraffau 12–16

<sup>14</sup> Memorandwm, paragraff 18

---

## 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**15.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm a llythyr yn ei gylch gan y Gweinidog at y Llywydd, dyddiedig 19 Gorffennaf 2022,<sup>15</sup> yn ein cyfarfod ar 26 Medi 2022.<sup>16</sup> Yn dilyn ein trafodaethau, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 4 Hydref 2022 i ofyn am ragor o wybodaeth.<sup>17</sup> Ymatebodd y Gweinidog ar 10 Tachwedd 2022.<sup>18</sup>

**16.** Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 21 Tachwedd 2022.<sup>19</sup>

### Ein barn ni

#### Sylwadau cyffredinol

---

**17.** Rydym yn nodi esboniad y Gweinidog yn ei lythyr dyddiedig 19 Gorffennaf bod y Memorandwm wedi'i osod dri diwrnod y tu allan i derfyn amser arferol y Rheolau Sefydlog, sef pythefnos, oherwydd, yn rhannol, "methiant Llywodraeth y DU i hysbysu Llywodraeth Cymru bod y gwelliant wedi'i gyflwyno."<sup>20</sup>

**18.** Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi yn ei lythyr dyddiedig 19 Gorffennaf bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried goblygiadau datganoli'r Bil wrth iddo fynd yn ei flaen "i sicrhau nad oes dim pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol dilyn proses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol."<sup>21</sup> Yn ein llythyr dyddiedig 4 Hydref 2022, gofynnwyd i'r Gweinidog gadarnhau a oedd y gwaith hwnnw i'w ystyried wedi dod i ben. Rydym yn nodi bod y Gweinidog, yn ei ymateb, yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi asesu'r Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ac yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw newidiadau y mae angen memorandwm pellach ar eu cyfer.<sup>22</sup>

---

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, [Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Llywydd](#), 19 Gorffennaf 2022, tudalen 2

<sup>16</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022](#)

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg](#), 4 Hydref 2022

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, [Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 10 Tachwedd 2022

<sup>19</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Tachwedd 2022](#)

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Llywydd, 19 Gorffennaf 2022, tudalen 2

<sup>21</sup> Ibid.

<sup>22</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Tachwedd 2022, tudalen 1

---

**19.** Nodwn fod y Gweinidog yn dweud yn ei lythyr dyddiedig 10 Tachwedd nad yw'r Bil wedi symud ymlaen i Drydydd Darlleniad yr Arglwyddi eto, a bod ei swyddogion "wrthi'n ceisio eglurder ynghylch a fydd y Bil yn symud yn ei flaen" yn sgil penodi Prif Weinidog newydd y DU. Rydym yn cydnabod yr ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog yn ei lythyr i ysgrifennu atom, ac at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cyn gynted ag y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am hynt y Bil.<sup>23</sup>

## **Barn Llywodraeth Cymru ar ddarpariaeth yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer**

---

**20.** Rydym yn nodi asesiad y Gweinidog bod paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yn cynnwys darpariaeth sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.1(i).

**21.** Rydym yn nodi barn y Gweinidog ei bod yn briodol ac yn gymesur i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru.

## **Diwygiannau canlyniadol wedi'u cynnwys yn y Bil**

---

**22.** Mae nifer o gymalau, a pharagraffau yn yr Atodlenni i'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yn cynnwys gwelliannau canlyniadol sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru. Nodwn farn y Gweinidog, gan mai ailddatgan y gyfraith yng Nghymru yn unig y mae'r gwelliannau hyn yn ei wneud, nad oes angen cydsyniad y Senedd.<sup>24</sup>

**23.** Nid yw Rheol Sefydlog 29.1(i) yn gwahaniaethu rhwng cyfraith newydd nac ailddatgan y gyfraith bresennol, dim ond bod darpariaeth mewn Bil y DU yn ddarpariaeth berthnasol os yw'n gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.<sup>25</sup> Nodwn fod y Gweinidog yn cytuno bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'n ymddangos i ni felly na ellir dadlau eu bod yn ddarpariaethau canlyniadol sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 29.1(i).

---

<sup>23</sup> Ibid.

<sup>24</sup> Memorandwm, paragraff 2

<sup>25</sup> Mynegwyd y farn hon gennym o fewn ein [hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16](#) ym mis Tachwedd 2021.

---

**Casgliad 2.** Credwn fod y darpariaethau yn y Bil sy'n ailddatgan y gyfraith yng Nghymru yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.1(i).

**Argymhelliad 1.** Dylid ceisio cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer yr holl ddarpariaethau yn y Bil sy'n ailddatgan y gyfraith yng Nghymru.

### **Cymal 52 o'r Bil (darpariaeth drosiannol, arbed a chanlyniadol)**

---

**24.** Rydym yn nodi bod cymal 52(2) o'r Bil yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i'r Bil. Gwnaethom leisio ein pryder gyda'r Gweinidog y gallai'r pŵer gael ei ddefnyddio i ddiwygio'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru, ac nad oes gofyniad yn y Bil i Lywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru neu'r Senedd na chael cydsyniad Llywodraeth Cymru neu'r Senedd cyn gwneud diwygiadau o'r fath. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd ganddo unrhyw bryderon ynghylch y cymal, ac, os felly, pa gamau yr oedd yn bwriadu eu cymryd i ddatrys y pryderon hynny.

**25.** Rydym yn nodi barn y Gweinidog ar gymal 52(2), fel y nodwyd yn ei lythyr dyddiedig 10 Tachwedd:

*"Rwy'n hyderus bod y ddarpariaeth wedi ei geirio mewn modd penodol iawn (o ganlyniad i'r Bil) ac na fydd, yn fy marn i, yn galluogi Gweinidogion Llywodraeth y DU i wneud unrhyw newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth ddatganoledig."<sup>26</sup>*

**26.** Er gwaethaf ymateb y Gweinidog, rydym yn parhau i bryderu am effaith bosibl y pŵer sydd wedi'i gynnwys yng nghymal 52(2). Rydym o'r farn, os yw Gweinidogion Llywodraeth y DU yn gallu gwneud newidiadau i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru – boed yn newidiadau sylweddol ai peidio – y dylid ymgynghori â'r Senedd, neu o leiaf Gweinidogion Cymru, neu y dylid gofyn iddynt roi cydsyniad ar gyfer unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog roi enghreifftiau o'r mathau o newidiadau y gellir eu gwneud wrth arfer y pwerau a roddir gan gymal 52(2) o'r Bil, os caiff ei ddeddfu.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau ac egluro pam ei fod yn fodlon i Weinidogion Llywodraeth y DU wneud newidiadau nad ydynt yn rhai o sylwedd i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru heb ymgynghori ymlaen llaw â Gweinidogion Cymru, na chael eu cydsyniad.

---

<sup>26</sup> Ibid.